Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Cymru

## 1 Ebrill–30 Medi 2020



**528** (1.4%)

Gwnaeth nifer y **nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio** ar ein cofrestr yng Nghymru gynyddu o 36,763 ar ddechrau mis Ebrill i **37,291** ar ddiwedd mis Medi.

O gymharu â hyn, gwnaeth nifer y gweithwyr proffesiynol yng Nghymru leihau 494 (1.4%) yn ystod yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol, rhwng mis Ebrill a mis Medi 2019.

**458** (1.3%)



Gwnaeth nifer y **nyrsys** ar ein cofrestr yng Nghymru gynyddu o 34,661 ym mis Ebrill i **35,119** ym mis Medi.

Rhwng mis Ebrill a mis Medi 2019, gwnaeth nifer y nyrsys gynyddu 445 (1.3%).

**76** (4.6%)



Gwnaeth nifer y **bydwragedd** ar ein cofrestr yng Nghymru gynyddu o 1,663 ym mis Ebrill i **1,739** ym mis Medi.

Rhwng mis Ebrill a mis Medi 2019, gwnaeth nifer y bydwragedd gynyddu 57 (3.6%).

**8** (–1.8%)




Gwnaeth nifer yr **unigolion â chofrestriad deuol** (pobl sydd wedi'u cofrestru fel nyrs a bydwraig) yng Nghymru leihau o 434 ym mis Mawrth i **426** ym mis Medi.

Rhwng mis Ebrill a mis Medi 2019, gwnaeth nifer yr unigolion â chofrestriad deuol leihau 6 (1.3%).


Ffigur 1

## Nifer y bobl ar y gofrestr â chyfeiriad yng Nghymru.




Ffigur 2


## Nifer y bobl sy'n ymuno â'r gofrestr am y tro cyntaf â chyfeiriad cofrestredig yng Nghymru.




* O'r 917 a ymunodd yng Nghymru yn ystod y chwe mis hyd at fis Medi 2020, roedd 63 wedi bod ar gofrestr dros dro COVID-19.

Ffigur 3

## Nifer y bobl a adawodd y gofrestr â chyfeiriad cofrestredig yng Nghymru.




Mae'r data yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar gyfeiriadau cofrestredig y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr.

Nid yw data am bobl sy'n ymuno yn cynnwys y rhai sy'n ailymuno â'r gofrestr ar ôl gadael yn flaenorol. Hefyd, mae cyfanswm y nifer ar y gofrestr o un adeg mewn amser, lle mae'r data ar bobl sy'n ymuno a gadael yn swm y gweithgarwch dros chwe mis. Felly, nid yw'r ffigurau hyn yn cyfateb yn union.

# Cofrestr dros dro ar gyfer COVID-19 yng Nghymru

## Gwnaethom sefydlu cofrestr dros dro ar gyfer COVID-19 er mwyn cefnogi ymateb y DU i bandemig y coronafeirws.

Gwnaethom wahodd nyrsys a bydwragedd a oedd wedi gadael ein cofrestr barhaol o fewn y pum mlynedd diwethaf i ymuno. Hefyd gwnaethom wahodd ymgeiswyr o dramor a oedd wedi cwblhau pob rhan o broses gofrestru'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, ac eithrio'r arholiad clinigol strwythuredig gwrthrychol (OSCE).

Cymerwyd y data isod o 30 Medi 2020 – yr un dyddiad â'r data o'n cofrestr barhaol uchod yn yr adroddiad hwn. Er eglurder, nid yw data o'r gofrestr dros dro ar gyfer COVID-19 wedi'u cynnwys yn ffigurau 1-3 uchod.

Ffigur 4

**Cyfanswm y bobl ar y gofrestr dros dro ar gyfer COVID-19 â chyfeiriad yng Nghymru.**

| | 30 Medi 2020 |
|---|---|
| Nyrs | 546 |
| Bydwraig | 26 |
| Nyrs a bydwraig | 4 |
| **Cyfanswm** | **576** |

Rhwng Ebrill a Medi, gadawodd 63 o bobl yng Nghymru gofrestr dros dro COVID-19 i ymuno â'r gofrestr barhaol.

Nid yw'r niferoedd hyn yn cynnwys pobl sydd eisoes wedi cofrestru gyda ni sy'n symud i Gymru, neu bobl sy'n dychwelyd i'r gofrestr.

Mae'r data yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar gyfeiriadau cofrestredig y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr.

NMC Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Rydym am weld nyrsio a bydwreigiaeth sy'n ddiogel, yn effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a llesiant pawb. Fel rheoleiddiwr proffesiynol bron i 725,000 o nyrsys a bydwragedd yn y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon.

**www.nmc.org.uk**
**@nmcnews**